Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3

Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru)

Rhagfyr 2009

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gellir gweld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol

www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopïau caled o'r adroddiad hwn gan:

Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8019

Ffacs: 029 2089 8021

E-bost: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk

**[Clawr Blaen y tu mewn]**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3

Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru)

Rhagfyr 2009

**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3**

Sefydlwyd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried deddfwriaeth a gaiff ei chyflwyno i'r Cynulliad, yn arbennig gan Lywodraeth Cymru, ac adrodd yn ôl ar y ddeddfwriaeth honno. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried deddfwriaeth nad yw'n ddeddfwriaeth y llywodraeth, fel y bo'n briodol, ac adrodd yn ôl arni.

**Pwerau**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 9 Rhagfyr 2008 fel un o bwyllgorau deddfwriaeth y Cynulliad. Nodir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn arbennig yn Rheolau Sefydlog 10, 22 a 23. Mae'r rhain ar gael yn www.cynulliadcymru.org

**Rhestr o'r Adroddiadau a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth**

| *Teitl yr adroddiad* | *Dyddiad cyhoeddi* |
|---|---|
| Adroddiad y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diwydiant Cig Coch Cymru ar Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig) 2008 | 10 Rhagfyr 2008 |

Gellir gweld adroddiadau blaenorol y Pwyllgor yn www.cynulliadcymru.org

**Aelodau'r Pwyllgor**

| *Aelod y Pwyllgor* | *Plaid* | *Etholaeth neu Ranbarth* |
|---|---|---|
| Dai Lloyd (Cadeirydd) | Plaid Cymru | Gorllewin De Cymru |
| Peter Black | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Llafur | Cwm Cynon |
| William Graham | Plaid Ceidwadol Cymru | Dwyrain De Cymru |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Helen Mary Jones | Plaid Cymru | Llanelli |

# Cynnwys

**Crynodeb o'r casgliadau a'r argymhellion** ........ 7

**1. Cyflwyniad** ........ 9

**2. Cefndir** ........ 11

**3. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth** ........ 13

**4. Sylwadau penodol am adrannau** ........ 17

Adran 2: Amcanion ........ 17

Adran 3: Swyddogaethau ........ 19

Adran 4: Gosod ardoll: dynodi personau sy'n atebol ........ 21

Adran 7: Dirprwyo ac is-gwmnïau ........ 27

Adrannau 8 a 9: Datganiadau niferoedd ac amcangyfrifon a Darparu gwybodaeth ........ 30

Adrannau 10 ac 11: Arolygu a Phwerau mynediad ........ 33

**5. Goblygiadau ariannol** ........ 36

**6. Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth** ........ 38

**Tystion** ........ 39

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ........ 40

## Crynodeb o'r casgliadau a'r argymhellion

Mae'r adroddiad yn amlinellu canfyddiadau gwaith craffu Cyfnod 1 Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 ar y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru).

Rydym yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a'r angen am ddeddfwriaeth. Cafodd hyn ei ddangos yn glir i ni a'i gefnogi mewn tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

Roedd y tystion yn croesawu ehangder a hyblygrwydd adrannau 2, 3 a 4, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i fynd i'r afael â materion sy'n wynebu diwydiant cig coch Cymru, fel y maent yn codi, yn briodol ac yn amserol. Rydym hefyd yn cefnogi'r angen am hyblygrwydd o'r fath ac yn fodlon â'r adrannau hyn.

Roedd y tystion yn cefnogi'r fframwaith a nodir yn adran 7 o'r Mesur arfaethedig ac rydym hefyd yn fodlon â'r adran hon.

Cynhaliwyd gwaith craffu manwl hefyd ar adrannau 8, 9, 10, 11 a 12. Er bod cytundeb gyffredinol i gefnogi'r adrannau hyn, roedd y dystiolaeth yn codi nifer o faterion i'w hystyried ymhellach. O ganlyniad i hyn, rydym wedi gwneud nifer o argymhellion i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig, a rhestrir y rhain isod.

**Argymhelliad 1** Wedi ystyried y dystiolaeth yn ofalus, rydym yn cydnabod barn tystion wrth dynnu sylw at ba mor bwysig yw ymgynghori. Felly, rydym yn argymell y dylai'r Mesur arfaethedig gynnwys gorfodaeth i ymgynghori'n sylweddol â'r diwydiant pe bai unrhyw newid i'r dull ardoll yn digwydd. Oherwydd hynny, gofynnwn i'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliant i sicrhau hyn.

**Argymhelliad 2** Rydym wedi ystyried tystiolaeth y Gweinidog o ran adran 4 (4) o'r Mesur arfaethedig a'r weithdrefn a fyddai'n berthnasol pe bai ffermwyr yn cael eu dynodi'n bersonau sy'n atebol i dalu ardoll. Mae'r Gweinidog wedi ein hysbysu y byddai dynodiad o'r fath ar ffurf gorchymyn gweithdrefn negyddol yn unol ag adran 4 (4) ac y byddai'r ardoll yn cael ei roi ar ffermwyr yn yr un gorchymyn. Nodir bod y Gweinidog wedi dweud fod y llywodraeth yn ystyried a fyddai'r weithdrefn gadarnhaol yn gymwys i orchymyn o'r fath. Oherwydd y dystiolaeth hon, rydym yn argymell fod y Gweinidog yn ystyried

cyflwyno gwelliant i sicrhau y bydd gorchymyn o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**Argymhelliad 3** Nodir yr anghysonder rhwng gwaith drafftio adran 11 (12) ac adran 8 (8) y Mesur arfaethedig, sy'n creu trosedd ddiamod mewn un achos ond nid y llall. Wrth roi tystiolaeth, nodir bod y Gweinidog wedi cadarnhau y caiff yr anghysonder hwn ei gadw mewn cof wrth ystyried gwelliannau i'r Mesur arfaethedig yn ystod y cyfnod nesaf. Rydym yn argymell fod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant i fynd i'r afael â'r anghysonder hwn yn ystod y cyfnod nesaf.

# 1. Cyflwyniad

1. Ar 19 Hydref 2009, cyflwynodd Elin Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig ("y Gweinidog"), y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru) a gwnaeth ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn[1] y diwrnod canlynol.[2]

2. Yn ei gyfarfod ar 20 Hydref 2009, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol i gyfeirio'r Mesur arfaethedig at Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 i ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1) yn unol â Rheol Sefydlog 23.2. Cytunodd hefyd fod yn rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Mesur arfaethedig erbyn 18 Rhagfyr 2009 fan bellaf.

*Hyd a lled y gwaith craffu*

3. Yn ein cyfarfod cyntaf ar 22 Hydref 2009, cytunwyd ar y fframwaith canlynol ar gyfer craffu ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig:

Ystyried:

(i) yr angen am Fesur arfaethedig i gyflawni ei ddibenion o:
   - wneud darpariaeth statudol, drwy fframwaith deddfwriaethol, ar gyfer datblygu a hybu diwydiant cig coch Cymru;

(ii) a yw'r Mesur arfaethedig yn cyflawni'r amcanion a nodwyd;

(iii) y darpariaethau allweddol a nodir yn y Mesur arfaethedig a'u haddasrwydd i gyflawni'r amcanion;

(iv) rhwystrau posibl rhag gweithredu'r darpariaethau allweddol ac a yw'r Mesur arfaethedig yn rhoi sylw iddynt; a

(v) barn y rhanddeiliaid a fydd yn gorfod gweithio o dan y trefniadau newydd.

---

[1] Cyfarfod llawn o Gynulliad Cenedlaethol Cymru
[2] Y Cofnod, 20 Hydref 2009, ar gael yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-chamber/bus-chamber-third-assembly-rop.htm?act=dis&id=148570&ds=10/2009. (SYLWER: Os na nodir yn wahanol, bydd y cyfeiriadau eraill at y Cofnod yn yr Adroddiad hwn yn cyfeirio at drafodion Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3.)

*Patrwm gwaith y Pwyllgor*

4. Cyhoeddwyd galwad gyffredinol am dystiolaeth a galwyd ar randdeiliaid allweddol, yn bennaf o fewn y diwydiant cig coch yng Nghymru, i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i lywio ein gwaith. Ceir rhestr o ymatebion yr ymgynghoriad ar dudalen 41.

5. Cafwyd tystiolaeth lafar gan nifer o dystion, ac mae'r manylion hynny ar dudalen 40.

6. Mae'r adroddiad a ganlyn yn cyfleu ein casgliadau a'n hargymhellion yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd yn ystod ein gwaith. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu.

## 2. Cefndir

*Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Mesur arfaethedig*

7. Caiff y prif bŵer sy'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud Mesur ynghylch datblygu a hybu diwydiant cig coch Cymru ei gynnwys yn adran 93 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), sy'n rhoi'r pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud Mesurau'r Cynulliad mewn cysylltiad â "materion" a restrir ym maes 1 o Ran 1 o Atodlen 5 o'r Ddeddf honno. Y mater hwn yn benodol yw 1.1 a fanylir isod.

Mater 1.1 o Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

> Mater 1.1
>
> Y diwydiant cig coch, o ran—
>
> (a) cynyddu effeithlonrwydd neu gynhyrchiant yn y diwydiant;
>
> (b) gwella marchnata yn y diwydiant;
>
> (c) gwella neu ddatblygu gwasanaethau y mae'r diwydiant yn eu darparu i'r gymuned neu y gallai eu darparu iddi;
>
> (d) gwella'r ffyrdd y mae'r diwydiant yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy drwyddynt.
>
> Dehongli'r maes hwn
>
> Yn y maes hwn ystyr "y diwydiant cig coch" yw pob gweithgaredd sy'n rhan o—
>
> (a) bridio, cadw, prosesu, marchnata a dosbarthu gwartheg, defaid a moch (yn fyw neu'n farw), a
>
> (b) cynhyrchu, prosesu, marchnata, gweithgynhyrchu a dosbarthu cynhyrchion sy'n dod o'r anifeiliaid hynny i unrhyw raddau helaeth (ac eithrio llaeth a chynhyrchion llaeth, gwlân cnu a chrwyn).
>
> At ddibenion y diffiniad hwn—
>
> ystyr "gwartheg" yw anifeiliaid buchol, gan gynnwys bison a byfflo;

> ystyr “moch” yw anifeiliaid o deulu’r moch, gan gynnwys baeddod gwyllt a moch fferal eraill

*Y Memorandwm Esboniadol*

8. Mae’r Memorandwm Esboniadol sy’n cyd-fynd â’r Mesur arfaethedig yn nodi:

> “Diben sylfaenol y Mesur yw diddymu’r angen am Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad i reoli datblygiad diwydiant cig coch Cymru a’r ffordd y mae’n cael ei hybu. Bydd y Mesur yn gwneud Gweinidogion Cymru yn uniongyrchol atebol am y Diwydiant Cig Coch’’[3].

9. Mae’r Memorandwm Esboniadol yn esbonio mai’r bwriad yw parhau â’r trefniadau rheoli gweithredol presennol trwy gyflwyno cytundeb dirprwyo newydd rhwng Gweinidogion Cymru a Hybu Cig Cymru”[4].

10. Mae’r Memorandwm Esboniadol yn datgan ymhellach hefyd: “Bydd gofyn i’r Mesur felly roi fframwaith hyblyg a fyddai’n gallu cynnal mecanweithiau amgen ar gyfer pennu a chasglu’r ardoll cig coch”[5].

11. Cyfeiria’r Memorandwm Esboniadol at natur y diwydiant cig coch ac eglura mai diben y Mesur arfaethedig yw mynd i’r afael â’r ffaith bod y diwydiant yn agored i effaith argyfyngau allanol annisgwyl. Mae’n datgan “diben arall… yw darparu fframwaith hyblyg ag iddo ffiniau pendant i Weinidogion Cymru allu cyflwyno mentrau newydd drwyddo mewn byr amser i fynd i’r afael â heriau o’r math hwn”[6].

12. Mae’r Memorandwm Esboniadol hefyd yn amlinellu “bod gan y Mesur fframwaith a fydd yn caniatáu cadw’r trefniadau cyfredol … ond bod iddo ddigon o gwmpas a hyblygrwydd i ganiatáu cyflwyno mecanweithiau amgen yn y dyfodol os bydd angen”.[7]

---

[3] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Memorandwm Esboniadol i’r Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru),* Hydref 2009
[4] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.1
[5] Ibid, paragraff 3.2
[6] Ibid, paragraff 3.3
[7] Ibid, paragraff 3.4

# 3. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

*Cefndir*

*13.* Diben y Mesur arfaethedig yw gwneud darpariaeth statudol, drwy fframwaith deddfwriaethol, ar gyfer datblygu a hybu diwydiant cig coch Cymru[8]. Bydd y Mesur yn gwneud Gweinidogion Cymru yn uniongyrchol atebol am ddiwydiant cig coch Cymru. Y bwriad yw parhau â'r trefniadau rheoli gweithredol presennol trwy gyflwyno cytundeb dirprwyo newydd rhwng Gweinidogion Cymru a Hybu Cig Cymru (HCC)[9].

*Tystiolaeth gan dystion – Egwyddorion Cyffredinol*

14. Cytunodd yr holl dystion ag egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a'r angen am fframwaith deddfwriaethol i hybu a marchnata sector cig coch Cymru. Roedd nifer o'r tystion yn arbennig o gefnogol i'r egwyddor y byddai Gweinidogion Cymru yn dod yn uniongyrchol atebol am ddiwydiant cig coch Cymru.

15. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd HCC:

> "The proposed Measure will enable Welsh Ministers to oversee the development, promotion and marketing of the Welsh red meat industry in order to better ensure that the specific needs of the Welsh industry are addressed appropriately, while maintaining full accountability and control at a Welsh level"[10].

16. Dyma farn Undeb Amaethwyr Cymru hefyd (FUW)[11] a Chynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru (WLBP), a ddywedodd mewn tystiolaeth ysgrifenedig:

> "Value for money, effectiveness, efficiency, robust and transparent governance are essential "ingredients" for the success of the measure, WLBP considers that these "ingredients" will improve under this proposed Measure, as

---

[8] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Memorandwm Esboniadol i'r Mesur arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru), Hydref 2009, paragraff 1.1

[9] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.1

[10] RM1, Tystiolaeth ysgrifenedig

[11] RM 2, Tystiolaeth ysgrifenedig

Welsh Ministers will become directly and visibly responsible and accountable for the levy"[12].

17. Roedd y tystion hefyd yn croesawu hyblygrwydd y Mesur arfaethedig o ran darparu fframwaith sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i anghenion y sector cig coch. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd HCC:

> "A flexible Measure is crucially important. We are dealing with a large and important industry. Issues frequently arise and we do not know what those will be from week to week or month to month. We need sufficient flexibility in the Measure to enable not only our response and delivery to our levy payers, but also to enable Hybu Cig Cymru to have a coherent approach and relationship with Welsh Ministers so that we can ensure a joined-up approach to policy and delivery on behalf of the industry"[13].

18. Roedd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) – Cymru yn cefnogi'r farn hon, gan ddweud:

> "We need total flexibility and, as long as the industry is fully consulted on this, and as long as the board as it is of HCC represents the industry, we want to see this taken forward"[14].

19. Yn yr un modd, pwysleisiodd Cymdeithas Gweithredwyr Lladd-dai Prydain: "It needs to be flexibility with a capital 'F' so that the Minister can take charge of what goes on'[15].

*Tystiolaeth gan dystion – Yr Angen am Ddeddfwriaeth*

20. Dywedodd y tystion hefyd fod yr angen am ddeddfwriaeth yn codi o'r angen i fynd i'r afael â'r anghyfartaledd o fewn y system bresennol o godi arian ardollau, lle mae nifer yr anifeiliaid a gaiff eu cynhyrchu yng Nghymru mewn gwirionedd yn uwch na'r nifer a gaiff eu lladd. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd HCC wrthym:

> "With the current system, Wales are losing levy income to England and Scotland, as animals born and reared in Wales are travelling over the border to England/Scotland for slaughter"[16].

---

[12] RM 4, Tystiolaeth ysgrifenedig
[13] Y Cofnod, paragraff 13, 5 Tachwedd 2009
[14] Y Cofnod, paragraff 20, 12 Tachwedd 2009
[15] Y Cofnod, paragraff 16, 19 Tachwedd 2009

21. Dywedodd hefyd:

> "The flexibility to be able to offer alternative methods for the determination of how the levy is raised and collected according to the needs of primary producers, who are the main levy payers, is an essential element of the proposed Measure"[17].

22. O gael eu holi, ychwanegodd HCC:

> "bod angen ardoll statudol yn y diwydiant cig coch oherwydd yr hyn y mae economegwyr yn ei alw'n 'ddiffyg yn y farchnad', sef y ffaith bod y rhan fwyaf o fusnesau o fewn y gadwyn cig coch yn rhy fach i wneud, er enghraifft, gwaith ymchwil a datblygu, dod o hyd i wybodaeth am y farchnad, neu hybu a marchnata eu cynnyrch fel unigolion. Felly, mae angen ardoll sy'n cael ei chasglu ar ran y diwydiant cyfan er mwyn helpu yn hynny o beth. Am y rheswm hwn, mae angen y ddeddfwriaeth a'r fframwaith yr ydym yn eu trafod"[18].

23. Gan gyfeirio ymhellach at faterion o fewn y system bresennol o godi ardollau, dywedodd NFU Cymru eu bod yn falch y bydd y Mesur arfaethedig yn caniatáu i Weinidogion Cymru ystyried y mater hwn.[19] Roedd y farn hon yn cael ei chefnogi hefyd mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Gynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru, a ddywedodd:

> "WLBP welcomes the opportunity to have Welsh Ministers exclusively responsible and accountable for the levy collected in Wales"[20].

*Tystiolaeth gan y Gweinidog – Egwyddorion Cyffredinol a'r Angen am Ddeddfwriaeth*

24. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod angen gwneud darpariaeth statudol drwy fframwaith deddfwriaethol i hybu a marchnata'r sector cig coch yng Nghymru gan nad oes gan Weinidogion Cymru bŵer uniongyrchol i godi ardoll[21].

25. Cawsom ein hysbysu hefyd mai'r:

---

[16] RM 1, Tystiolaeth ysgrifenedig
[17] RM 1, Tystiolaeth ysgrifenedig
[18] Y Cofnod, paragraff 7, 5 Tachwedd 2009
[19] RM3, Tystiolaeth ysgrifenedig
[20] RM, Tystiolaeth ysgrifenedig
[21] Y Cofnod, paragraff 95, 12 Tachwedd 2009

> "diffyg sylfaenol yw na all Gweinidogion Cymru godi ardoll yn uniongyrchol, ac felly yr ydym wedi gorfod sefydlu corff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad i godi'r ardoll honno ar ein rhan. Polisi Llywodraeth Cymru yw ymgymryd â swyddogaethau o fewn y Llywodraeth, yn hytrach na sefydlu CNLCau. Drwy ein galluogi i godi'r ardoll yn uniongyrchol, bydd yn osgoi'r angen am Fwrdd Ardollau Cymru. Felly, pan gaiff y Mesur arfaethedig ei basio, ni fydd Bwrdd Ardollau Cymru yn bodoli mwyach"[22].

*Ein barn ni – Egwyddorion Cyffredinol a'r Angen am Ddeddfwriaeth*

26. Nodir bod yr holl dystion o blaid yr egwyddor a'r angen am y Mesur arfaethedig, a bod llawer o'r tystion yn croesawu'r ffaith y byddai Gweinidogion Cymru yn uniongyrchol atebol am ddiwydiant cig coch Cymru. Nodir y gefnogaeth gan y tystion hefyd i hyblygrwydd y Mesur arfaethedig o ran galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i anghenion y sector cig coch a rheoli'r dulliau casglu ardoll.

27. Wedi ystyried y farn hon, rydym yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a'r angen am Ddeddfwriaeth.

28. Mae ein barn ar rai o adrannau penodol y Mesur arfaethedig i'w gweld yn adran 4.

[22] Y Cofnod, paragraff 98, 12 Tachwedd 2009

## 4. Sylwadau Penodol am Adrannau

***Adran 2: Amcanion***

*Cefndir*

29. Caiff amcanion y Mesur arfaethedig eu cynnwys yn adran 2 ac maent yn cynnwys:

- Cynyddu effeithlonrwydd neu gynhyrchiant yn y diwydiant cig coch
- Gwella marchnata yn y diwydiant
- Gwella neu ddatblygu gwasanaethau y mae'r diwydiant yn eu darparu i'r gymuned neu y gallai eu darparu iddi
- Gwella'r ffyrdd y mae'r diwydiant yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy drwyddynt[23]

30. Yr un yw'r amcanion hyn â rhai Bwrdd Ardollau presennol Cymru ac maent hefyd yn adlewyrchu'r amcanion a nodir yn *Neddf yr Amgylchedd a Chymunedau 2006*, sef y prif fframwaith cyfreithiol penodol ar gyfer hybu a datblygu prif sectorau amaeth y DU[24].

*Tystiolaeth gan dystion - Adran 2: Amcanion*

31. Roedd y rhan fwyaf o'r tystion yn cefnogi'r amcanion a amlinellir yn adran 2 o'r Mesur arfaethedig. Pan ofynnwyd am eu barn ar amcanion y Mesur arfaethedig [25] dywedodd HCC:

> "[They are] sufficiently broad and appropriate at this time to help the industry over the forthcoming years"[26].

32. Roedd Undeb Amaethwyr Gymru (FUW) hefyd yn cytuno bod amcanion y Mesur arfaethedig yn ddigon eang i alluogi Gweinidogion Cymru i gyflawni eu hamcanion polisi ac ymateb i anghenion y sector cig coch[27].

33. Mynegodd NFU Cymru farn fod angen i amcanion y Mesur arfaethedig gael eu drafftio'n eang ac esboniodd fod angen hyn er mwyn:

---

[23] Memorandwm esboniadol, paragraff 1.2
[24] Memorandwm esboniadol
[25] Y Cofnod, paragraff 14, 5 Tachwedd 2009
[26] Y Cofnod, paragraff 15, 5 Tachwedd 2009
[27] Y Cofnod, paragraff 32, 5 Tachwedd 2009

> "ensure that it covers the wide range of issues that the industry will encounter, both now and in the future. We have to look at how we can support the industry in its development and by giving practical help to farmers on the ground. We have to look at research and development to tackle the major issues that we are talking about now, such as consumer trends in how people eat, and climate change mitigation, which is a big issue for the future"[28].

*Tystiolaeth gan y Gweinidog – Adran 2: Amcanion*

34. Wrth roi tystiolaeth lafar, eglurodd y Gweinidog ei hamcanion polisi ar gyfer y diwydiant cig coch ac esboniodd sut y bydd y Mesur yn ei galluogi i gyflawni'r amcanion hynny. Dywedodd wrthym:

> "Fy amcan polisi i yw codi'r ardoll yn uniongyrchol a galluogi a dirprwyo'r gwaith o godi'r ardoll i Hybu Cig Cymru, a chaniatáu i Hybu Cig Cymru ymgymryd â, a pharhau â'r gwaith y mae'n ei wneud ar hyn o bryd i hyrwyddo a datblygu'r sector cig coch yng Nghymru."[29]

35. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod angen i'r Mesur arfaethedig gael ei ddrafftio'n eang er mwyn ymateb i ansicrwydd y diwydiant cig coch. Dywedodd wrthym:

> "Mae'r diwydiant yn agored i ysgytiadau, a gallent fod yn ysgytiadau sy'n deillio o glefydau anifeiliaid neu ddychryn ynglŷn â rhyw fwyd neilltuol. Mae gofyniad i'r Mesur arfaethedig gael ei ddrafftio mewn ffordd a fyddai'n caniatáu i ni, pe bai problemau neilltuol yn effeithio ar y diwydiant—a gobeithiaf na fydd hynny'n digwydd—sefydlu polisïau o fewn cyfnod byr i ymateb iddynt."[30].

*Ein barn ni – Adran 2: Amcanion*

36. Rydym wedi ystyried barn y tystion ar amcanion y Mesur arfaethedig ac yn cydnabod y gefnogaeth sydd i'r amcanion hynny. Felly rydym yn fodlon ag adran 2 y Mesur arfaethedig fel y mae wedi'i ddrafftio.

---

[28] Y Cofnod, paragraff 15, 12 Tachwedd 2009
[29] Y Cofnod, paragraff 101, 12 Tachwedd 2009
[30] Y Cofnod, paragraff 108, 12 Tachwedd 2009

37. Nodir y gefnogaeth hefyd i ehangder a hyblygrwydd yr amcanion a nodir yn adran 2 a'u cenfogaeth i'r angen am ehangder a hyblygrwydd o'r fath. Rydym yn cytuno â'r farn hon ac yn cytuno ei bod yn bwysig sicrhau bod amcanion y Mesur arfaethedig yn ddigon eang i alluogi Gweinidogion Cymru i fynd i'r afael â materion fel y maent yn codi, yn briodol ac yn amserol.

***Adran 3: Swyddogaethau***

*Cefndir*

38. Mae Adran 3 yn nodi swyddogaethau'r Mesur arfaethedig, sef darparu'r modd a'r dull y bydd gan Weinidogion Cymru bŵer i allu newid manylion y Mesur arfaethedig. Mae'r rhain yn cynnwys y gallu i newid geiriad, ychwanegu disgrifiadau newydd neu ddileu disgrifiadau sy'n bodoli eisoes o weithgareddau y gellir eu cynnal i ddatblygu a hybu'r diwydiant cig coch.

39. Mae Atodlen 1 o'r Mesur arfaethedig yn rhestru gweithgareddau penodol, gan gynnwys gweithgareddau hyrwyddo, marchnata ac ymchwil

*Tystiolaeth gan dystion – Adran 3: Swyddogaethau*

40. Roedd y rhan fwyaf o'r tystion yn croesawu'r pwerau a amlinellir yn adran 3 ac Atodlen 1 o'r Mesur arfaethedig. Dywedodd HCC:

> "The functions are comprehensive, including everything from research and development, marketing and promotion to helping the industry to become more efficient. They would certainly be in line with the strategic plan that we announced on behalf of the industry back in April 2009, which seeks to achieve a profitable and sustainable industry for all in the supply chain going forward"[31].

41. Roedd yr holl dystion yn fodlon ar ehangder y pwerau, a amlinellir yn adran 3 (1) o'r Mesur arfaethedig, sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru 'wneud unrhyw beth' y maent yn ei ystyried sy'n briodol i wella'r amcanion a amlinellir yn adran 2.

42. Wrth gefnogi'r pwerau hyn, dywedodd Cymdeithas Gweithredwyr Lladd-dai Prydain:

---

[31] Y Cofnod, paragraff 17, 5 Tachwedd 2009

> "the term 'anything' is a broad one and gives a tremendous amount of scope, but I would be willing, as a Welshman, to say 'yes' to that, as long as the industry was consulted. By 'the industry', I mean from the big abattoirs through to the small ones, and the small cutting plants that are the backbone of the Welsh meat industry"[32].

43. Cadarnhaodd NFU Cymru[33], FUW[34] a HCC[35] hefyd eu bod yn fodlon ar ehangder y pwerau a gaiff eu cynnwys yn adran 3.

*Tystiolaeth gan y Gweinidog - Adran 3: Swyddogaethau*

44. Cawsom ein hysbysu gan y Gweinidog bod y swyddogaethau a nodir yn Atodlen 1 o'r Mesur arfaethedig yn atgynhyrchu'r trefniadau presennol. Dywedodd wrthym:

> "Mae'r swyddogaethau yn Atodlen 1 yn dyblygu'r swyddogaethau sydd wedi'u hamlinellu ar hyn o bryd yng Ngorchymyn Bwrdd Ardollau Cymru 2008, a sefydlodd Fwrdd Ardollau Cymru. Er eu bod yn ymddangos yn eang, efallai, nid ydynt ond yn dyblygu'r sefyllfa sy'n bodoli ar hyn o bryd."[36]

*Ein barn ni – Adran 3: Swyddogaethau*

45. Nodir bod y rhan fwyaf o'r tystion yn fodlon ar adran 3 ac Atodlen 1 o'r Mesur arfaethedig fel y maent wedi'u drafftio. Gan gymryd hyn i ystyriaeth, rydym yn fodlon â'r swyddogaethau yn adran 3 ac Atodlen 1 o'r Mesur arfaethedig, sy'n darparu'r modd a'r dull o sicrhau bod gan Weinidogion Cymru y pŵer i ddiwygio manylion y Mesur.

---

[32] Y Cofnod, paragraff 18, 19 Tachwedd 2009
[33] Y Cofnod, paragraff 20, 12 Tachwedd 2009
[34] Y Cofnod, paragraff 36, 5 Tachwedd 2009
[35] Y Cofnod, paragraff 17, 5 Tachwedd 2009
[36] Y Cofnod, paragraff 103, 12 Tachwedd 2009

### ***Adran 4: Gosod ardoll: dynodi personau sy'n atebol***

*Cefndir*

46. Mae Adran 4 yn rhoi cyfyngiadau ar y Mesur arfaethedig, yn benodol mai dim ond ar y gweithgareddau a gaiff eu diffinio yn Atodlen 1 ac ar y sector cig coch y gellir gwario'r ardoll a godir.

47. Mae Adran 4 yn rhoi hyblygrwydd fel y byddai modd ei gwneud yn ofynnol i bob un yn y gadwyn gyflenwi cig coch dalu'r ardoll ac mae'n nodi pedwar categori o berson a ddicon fod yn gymwys i godi ffi ardoll arno. Y rhain yw:

- person sy'n cyflawni gweithgaredd cynradd dynodedig
- person sy'n cyflawni gweithgaredd eilradd dynodedig
- cigyddwyr
- allforwyr

48. Nid yw categori 'gweithgaredd eilaidd' yn cael ei gynnwys mewn deddfwriaeth bresennol.

49. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Mesur arfaethedig yn esbonio bod y Mesur yn rhoi hyblygrwydd er mwyn ei gwneud yn bosibl y gallai fod yn orfodol i'r ardoll gael ei dalu gan bawb yn y gadwyn gyflenwi gyfan. Nodir bod hyn yn amrywio:

> "o'r amaethwr sy'n cadw'r stoc ac yn bridio a meithrin yr anifeiliaid i'r cigydd sy'n gwerthu cig a chynhyrchion eraill i'r cwsmer terfynol"[37].

*Tystiolaeth gan dystion – Adran 4: Gosod ardoll: dynodi personau sy'n atebol*

50. Roedd tystiolaeth gan yr FUW yn pwysleisio bod y dull presennol o ddosbarthu ardollau rhwng y rhanbarthau datganoledig, yn seiliedig ar leoliad y lladd-dai, yn annheg ac yn peri risg i sector cig coch Cymru. Dywedodd wrthym:

> "There is no stability at the moment, and although you need flexibility, the key issue is stability in the end. The industry is very shaky, if that is the right word, and things can change in a couple of days if a particular business or the industry as a

---

[37] Memorandwm Esboniadol a Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at adran 4

whole gets into trouble. It could leave the industry more or less penniless overnight"[38].

*Tystiolaeth gan dystion - Hyblygrwydd*

51. Roedd y tystion yn cefnogi'r hyblygrwydd a geir yn adran 4 o ran y gallu i orfodi ardollau ar bob un yn y gadwyn gyflenwi cig coch pe bai angen. Dywedodd nifer o dystion y gallai'r Mesur arfaethedig fynd i'r afael â rhai o'r problemau o fewn y system bresennol o gasglu ardollau.

52. Er enghraifft, mewn tystiolaeth lafar, dywedodd HCC:

> "The levy provision we have at the moment is based on collection of levies from farmers and processors with the mechanisms for collection in the abattoir. The problem with the present system, and the NERC Act that governs it, is that neither we nor Welsh Ministers have any control over where those abattoirs happen to be. The failing is that if we say that we had 24 abattoirs operating in Wales in 2008, and if for some reason – and you could argue that it is possible – four of those abattoirs, which account for 80 per cent of the through out of sheep, closed, we would not have any means of collecting the levy in Wales because the stock would have to be slaughtered elsewhere"[39].

53. Ychwanegodd:

> "You could ultimately have a situation where we have no abattoirs in Wales and all the levies would be collected in England and Scotland, and therefore we would be devoid of any body to help the industry and Welsh farmers and processors"[40].

54. O ran y ffordd y gallai'r Mesur arfaethedig fynd i'r afael â'r mater hwn, barn HCC oedd:

> "the proposed Measure provides us with the security or safety net that should those ministerial discussions not achieve what we require to safeguard the industry, there is a fallback position here through which we can look at other means of

[38] Y Cofnod, paragraff 94, 5 Tachwedd 2009
[39] Y Cofnod, paragraff 28, 5 Tachwedd 2009
[40] Y Cofnod, paragraff 29, 5 Tachwedd 2009

> collecting the levy and therefore safeguard the interests of the industry going forward"[41].

55. Yn ystod y sesiwn holi, trafodwyd diffiniadau eang y Mesur arfaethedig, o ran darparu Gweinidogion Cymru â'r hyblygrwydd i osod ardoll ar bob un yn y gadwyn gyflenwi cig coch. Roedd yr holl dystion yn fodlon â'r ffordd y mae adran 4 wedi'i drafftio, ac yn arbennig â hyblygrwydd yr adran hon. Dywedodd HCC wrthym fod angen yr hyblygrwydd hwnnw arno yn y ddarpariaeth ac yn y Mesur arfaethedig"[42].

56. Mynegodd NFU Cymru rai pryderon o ran gosod ardollau ar bob un yn y gadwyn gyflenwi cig coch, gan nodi mewn tystiolaeth lafar:

> "The only problem that we have as farmers is that, in the past, we have generally seen, either directly or indirectly, levies or charges placed on other people in the supply chain being passed back down the chain to us, so the advantage of the levy at present is that we can at least see exactly what is going out"[43].

57. Roedd yr FUW yn cefnogi'r hyblygrwydd i osod ardoll ar bob un yn y gadwyn gyflenwi cig coch ond mynegodd hithau pryderon tebyg o ran sut y dylid defnyddio'r hyblygrwydd hwn. O ran newidiadau yn y ffordd y cesglir yr ardoll, dywedodd yr FUW wrthym:

> "Potential problems would need to be considered before any significant decisions were taken in that regard. It is a volatile supply chain and you must be very careful, because there is always a risk that if you have a levy in the wrong place in the chain, it will always get passed on to the farmer, one way or another"[44].

58. Er bod ychydig o bwyllo o ran newidiadau i orfodi'r ardoll, roedd NFU Cymru a'r FUW o'r farn fod angen gwella'r system bresennol o gasglu ardollau.

59. Dywedodd yr FUW:

> "We have to be realistic and realise that we have to find a better way of collecting this levy. It is not really up to us as an

---

[41] Y Cofnod, paragraff 30, 5 Tachwedd 2009
[42] Y Cofnod, paragraff 34, 5 Tachwedd 2009
[43] Y Cofnod, paragraff 48, 12 Tachwedd 2009
[44] Y Cofnod, paragraff 105, 5 Tachwedd 2009

> industry to propose it, but we would like to see the levy from the stock produced in Wales used to promote Wales"[45].

60. Ychwanegodd:

> "With the current system, we are vulnerable, because it is entirely based on the location of abattoirs, and producers, Hybu Cig Cymru and Welsh Ministers do not have much say over where abattoirs will be in the future. As things stand at the moment, we are losing somewhere between £0.74 million and £1.53 million, because a lot of stock is moved out of Wales"[46].

61. O ran mynd i'r afael â hyn, awgrymodd NFU Cymru:

> "if, in the future, we look to use some of the powers in this proposed Measure to change the way in which the levy is collected, we may need to look to other people to collect the levy on our behalf, and it is probably important that we have this within the proposed Measure"[47].

*Tystiolaeth gan dystion – Gweithgareddau eilaidd*

62. O ran y bwriad i ehangu'r ddeddfwriaeth i gynnwys y rhai sy'n cymryd rhan mewn 'gweithgareddau eilaidd' yn y sector, roedd y tystion yn croesawu hyblygrwydd y Mesur arfaethedig wrth greu'r potensial ar gyfer cyd-ariannu'r ardoll yn y dyfodol. Esboniodd HCC:

> "The Measure, as drafted, gives us the flexibility to perhaps, at some point not defined in the future, to jointly fund the levy. For example, were there a need to develop certain parts of the supply chain that ordinarily do not pay levy, for example, distributors of meat or perhaps retailers, who for a specific purpose would wish to get the nutritional messages of eating a balanced healthy diet, and meat as part of that, over to the general public, there may be an opportunity for them to jointly fund the levy on the basis of a project. As drafted, the Measure would give us that flexibility if the need arose"[48].

63. Roedd yr FUW yn cytuno â'r farn hon, a dywedodd:

---

[45] Y Cofnod, paragraff 54,  5 Tachwedd 2009
[46] Y Cofnod, paragraff 55, 5 Tachwedd 2009
[47] Y Cofnod, paragraff 48, 12 Tachwedd 2009
[48] Y Cofnod, paragraff 41, 5 Tachwedd 2009

> "In terms of secondary activities, if there are other people in the supply chain who are benefiting from the work of Hybu Cig Cymru and the levy that goes into it, there is an argument that they should also put some money towards it. So, we need the flexibility"[49].

*Tystiolaeth gan dystion - Ymgynghori*

64. Soniodd nifer o'r tystion am yr angen i ymgynghori â'r diwydiant cyfan pe bai unrhyw newid yn y dull ardollau. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf:

> "WLBP, however, strongly believes that the rate of the levies paid by the industry should not be changed without the views of the industry being sought through a wide consultation process"[50].

65. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r tystion o'r farn nad oedd angen i'r Mesur arfaethedig gynnwys gofyniad i ymgynghori â'r diwydiant ar y mater hwn. Dywedodd HCC:

> "We do not specifically need that in the proposed Measure, because it is generally accepted that there is consultation on any changes"[51].

66. Pwysleisiodd NFU Cymru hyn gan nodi:

> "we stress that decisions should be made for the development and promotion of the red meat industry only after full consultation with the industry, because, at the end of the day, we are responsible for paying the levy, which is a significant proportion of the funds. So, provided that there is full consultation, we are content"[52].

67. Mynegodd yr FUW farn debyg mewn tystiolaeth lafar:

> "as a farming union, we would like to see that no changes are made unless consultation with industry had taken place and agreement had been reached"[53].

---

[49] Y Cofnod, paragraff 63, 12 Tachwedd 2009
[50] RM 4, Tystiolaeth ysgrifenedig
[51] Y Cofnod, paragraff 43, 5 Tachwedd 2009
[52] Y Cofnod, paragraff 25, 12 Tachwedd 2009
[53] Y Cofnod, paragraff 65, 5 Tachwedd 2009

68. Fodd bynnag, ychwanegodd hefyd yr hoffai weld gofyniad i ymgynghori yn y Mesur arfaethedig[54].

*Tystiolaeth gan y Gweinidog – Adran 4: Gosod ardoll: dynodi personau sy'n atebol*

69. Cyfeiriodd y Gweinidog at natur anghyfartal y dull presennol o gasglu ardollau ac esboniodd y gallai cyflwyno cymalau yn y Mesur arfaethedig ar gyfer caniatáu i gasglu'r ardoll yn y lladd-dy yn ogystal â'r prif gynhyrchydd neu sefydliad sy'n ymgymryd â gweithgareddau eilaidd yn y sector cig coch ganiatáu ar gyfer newid polisi yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r mater hwn[55].

70. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd gydag unrhyw newid o'r fath yn y polisi:

> "byddai gofyn gwneud cryn lawer o ymgynghori a gwaith i ganfod y gweithgarwch hwnnw a ble y gellid mynd ati i gasglu'r ardoll yn briodol fel ffordd o godi'r ardoll ar sail y trafodion yn y sector cig coch"[56].

71. Wrth gyfeirio at ymgynghori o'r fath, dywedodd y Gweinidog:

> "ni chredaf fod rhaid i hynny fod ar wyneb y Mesur. Bydd y weithdrefn gadarnhaol yn caniatáu'r ymgynghori hwnnw, felly dylai ddigwydd"[57].

72. Wrth ymateb i'r ymholiad hwn ymhellach mewn tystiolaeth ysgrifenedig, eglurodd y Gweinidog y weithdrefn fyddai'n berthnasol pe bai'r man casglu yn newid o ladd-dai i ffermydd. Soniodd y dystiolaeth:

> "Farmers would be designated as persons liable to pay levy. The designation would take the form of a negative procedure order in accordance with section 4 (4) and the levy would be imposed upon farmers in the same order. The government is considering whether the affirmative procedure would apply to such an order".

---

[54] Y Cofnod, paragraff 67, 5 Tachwedd 2009
[55] Y Cofnod, paragraff 111, 12 Tachwedd 2009
[56] Y Cofnod, paragraff 117, 12 Tachwedd 2009
[57] Y Cofnod, paragraff 121, 12 Tachwedd 2009

*Ein barn ni – Adran 4: Gosod ardoll: dynodi personau sy'n atebol*

73. Nodir farn y tystion o ran croesawu hyblygrwydd y Mesur arfaethedig i alluogi ardollau i gael eu casglu ar bob cam yn y gadwyn gyflenwi cig coch. Gan gadw hyn mewn cof, rydym yn fodlon â hyblygrwydd y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru i osod ardoll ar bob un yn y gadwyn gyflenwi cig coch a chytunwn â hynny.

74. Nodir farn y tystion o ran yr angen i gynnal ymgynghoriad pe bai unrhyw newidiadau i'r mecanwaith ardollau yn cael ei gynnal a chydnabyddir sicrwydd y Gweinidog y byddai unrhyw newidiadau o'r fath yn destun ymgynghoriad sylweddol. Rydym yn cydnabod hefyd y byddai unrhyw newidiadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, ac y byddai hynny hefyd yn golygu ymgynghoriad manwl.

75. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y dystiolaeth yn ofalus, rydym yn cydnabod barn y tystion wrth iddynt dynnu sylw at bwysigrwydd ymgynghori. Felly, rydym yn argymell y dylai'r Mesur arfaethedig gynnwys gofyniad i ymgynghori â'r diwydiant pe bai unrhyw newidiadau'n digwydd i'r mecanwaith ardollau. Am y rheswm hwnnw, gofynnwn i'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliant yn nodi hynny.

76. Rydym wedi ystyried tystiolaeth y Gweinidog o ran adran 4 (4) y Mesur arfaethedig a'r weithdrefn fyddai'n berthnasol pe bai ffermwyr yn cael eu dynodi'n bersonau sy'n atebol i dalu ardoll. Mae'r Gweinidog wedi ein hysbysu y byddai dyraniad o'r fath ar ffurf gorchymyn gweithdrefn negyddol yn unol ag adran 4 (4) ac y byddai'r ardoll yn cael ei osod ar ffermwyr yn yr un gorchymyn. Nodir bod y Gweinidog wedi datgan bod y llywodraeth yn ystyried a fyddai gweithdrefn gadarnhaol yn gymwys i orchymyn o'r fath.

77. Gan gadw'r dystiolaeth hon mewn cof, rydym yn argymell fod y Gweinidog yn ystyried cyflwyno gwelliant i sicrhau y byddai gorchymyn o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

***Adran 7: Dirprwyo ac is-gwmnïau***

*Cefndir*

78. Mae adran 7 yn nodi'r fframwaith pŵer sydd gan Weinidogion Cymru i allu dirprwyo eu holl gyfrifoldebau, neu rai ohonynt, i drydydd parti. Mae hefyd yn darparu'r fframwaith pŵer sydd gan Weinidogion

Cymru ynddo i allu caffael neu sefydlu is-gwmnïau i gynnal unrhyw rai o'u swyddogaethau.

79. O dan y trefniadau presennol, mae Bwrdd Ardollau Cymru yn dyrannu'r swyddogaethau hybu a marchnata sector cig coch Cymru i HCC. Mewn datganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 20 Hydref 2009, dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig:

> "Nid yw'n fwriad gennyf newid y trefniadau dirprwyo presennol, a rhagwelir darparu trefniant dirprwyo newydd rhwng Gweinidogion Cymru a Hybu Cig Cymru a fydd yn caniatáu i Hybu Cig Cymru barhau i hyrwyddo a datblygu diwydiant cig coch Cymru fel ag o'r blaen"[58].

*Tystiolaeth gan dystion – Adran 7: Dirprwyo ac is-gwmnïau*

80. Roedd yr holl dystion yn cefnogi'r fframwaith a nodir yn adran 7 o'r Mesur arfaethedig, sy'n darparu Gweinidogion Cymru â'r pŵer i allu dirprwyo eu holl gyfrifoldebau, neu rai ohonynt, i drydydd parti.

81. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd HCC:

> "the arms length approach is important in that it encourages industry ownership of the work that we undertake on its behalf, as opposed to the work being seen as a delivery vehicle for Welsh Ministers"[59].

82. Mynegodd y rhan fwyaf o'r tystion y farn bod angen i rôl bresennol HCC barhau. Caiff gwaith HCC ei lywio gan fwrdd o gynrychiolwyr y diwydiant, ac roedd y tystion o'r farn bod yr atebolrwydd hwn yn bwysig i'r diwydiant.

83. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd yr FUW:

> "under no circumstances would FUW members support HCC being absorbed into the Welsh Assembly Government, as has happened with other bodies. This is particularly the case given that HCC differs significantly from other bodies, in that it derives income directly from levy-payers"[60].

84. Eglurwyd y farn hon ymhellach mewn tystiolaeth lafar a oedd yn nodi

---

[58] Y Cofnod, Trafodion y Cyfarfod Llawn, 20 Hydref 2009
[59] Y Cofnod, paragraff 24, 5 Tachwedd 2009
[60] RM2, Tystiolaeth ysgrifenedig

> "The industry looks at Hybu Cig Cymru favourably. I am sure that it would be much more prepared to pay a levy to Hybu Cig Cymru than to the Welsh Government"[61].

85. Roedd NFU Cymru'n cefnogi'r farn hon gan ddweud:

> "provided that we can continue with the current arrangements of a Welsh-Assembly-Government-owned body that has a board of directors with strong industry representation, we would be content"[62].

86. Roedd y Gymdeithas Arwerthwyr Da Byw hefyd yn rhannu'r farn hon a dywedodd eu cynrychiolydd wrthym:

> "I am in full agreement with HCC being kept as a separate body. It has a proven track record of leading the industry from the ground up, and we are more than happy with that organisation"[63].

87. Cafodd y farn hon ei chadarnhau mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan HCC wrth ddatgan:

> "the importance of retaining a separate red meat body in Wales to support the industry in development, marketing and promotion. As well as Welsh Ministers, HCC is also accountable to the industry (both producers and processors) who pay the levy which enables HCC to carry out its duties[64].

88. Ategwyd y farn hon ymhellach mewn tystiolaeth lafar a oedd yn datgan:

> "I think that the arm's length approach is important in that it encourages industry ownership of the work that we undertake on its behalf, as opposed to the work being seen as a delivery vehicle for Welsh Ministers".

89. Mynegodd rhai tystion bryder o ran dirprwyo cyfrifoldeb a sicrhau cywirdeb ariannol Cronfeydd Ardollau Cymru i drydydd parti. Dywedodd Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru a'r Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol:

---

[61] Y Cofnod, paragraff 90, 5 Tachwedd 2009
[62] Y Cofnod, paragraff 36, 12 Tachwedd 2009
[63] Y Cofnod, paragraff 44, 12 Tachwedd 2009
[64] Tystiolaeth ysgrifenedig, HCC

"If this is the case and Ministers delegate their authority over the levy to others it is imperative that the same robust governance and financial probity protocols continue to underpin such a delegation"[65].

*Tystiolaeth gan y Gweinidog - Adran 7: Dirprwyo ac is-gwmnïau*

90. Mewn tystiolaeth lafar, rhoddodd y Gweinidog dystiolaeth o ran pam bod angen dirprwyo pwerau, i drydydd parti mewn cysylltiad â'r sector cig coch, sef i HCC.

91. Dywedodd y Gweinidog:

> "Mae cael cyswllt agos â chynrychiolwyr y diwydiant, a bod â chynrychiolwyr o blith ffermwyr, cynhyrchwyr a phroseswyr ar fwrdd Hybu Cig Cymru, yn fuddiol er mwyn sicrhau bod pob agwedd o'r diwydiant yn teimlo bod ganddynt berchenogaeth ar weithgarwch hyrwyddo a datblygu Hybu Cig Cymru. Fel cynhyrchwyr a phroseswyr cynradd, nhw yw'r rhai sy'n talu'r ardoll, wrth gwrs."[66]

*Ein barn ni – Adran 7: Dirprwyo ac is-gwmnïau*

92. Nodir y dystiolaeth gan dystion sy'n cefnogi'r fframwaith a gyflwynir yn adran 7 o'r Mesur arfaethedig, sy'n darparu Gweinidogion Cymru â'r pŵer i'w galluogi i ddirprwyo eu holl gyfrifoldebau neu rai ohonynt i drydydd parti.

93. Wrth ystyried hyn, rydym yn fodlon â'r darpariaethau a amlinellir yn adran 7.

### *Adrannau 8 a 9: Datganiadau niferoedd ac amcangyfrifon a Darparu gwybodaeth*

*Cefndir*

94. Mae Adran 8 yn nodi'r trefniadau y dylid eu dilyn gan bersonau sy'n atebol i dalu ardoll mewn perthynas ag unrhyw gofnod, gan nodi nifer y gwartheg, defaid neu foch, a nodi unrhyw wybodaeth arall sydd ei hangen ac yn y modd a'r ffurf a bennir gan Weinidogion Cymru. Mae adran 8 hefyd yn darparu y gall natur, amseriad a chynnwys unrhyw gofnod felly gael eu newid a'u diwygio yn ôl yr angen. Gallai methu â

---

[65] RM6, Tystiolaeth ysgrifenedig
[66] Y Cofnod, paragraff 106, 12 Tachwedd 2009

chyflwyno gwybodaeth yn unol ag unrhyw gyfarwyddyd arwain at ddirwy.

95. Mae adran 9 yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n atebol i dalu ardoll gadw cofnodion cywir er mwyn galluogi i swm yr ardoll sy'n ddyledus gael ei gyfrif ac i gynhyrchu'r cofnodion hynny ar gais. Fel gydag adran 8, mae methu â gwneud hynny yn drosedd a gallai arwain at ddirwy.

*Tystiolaeth gan dystion – Adrannau 8 a 9: Datganiadau niferoedd ac amcangyfrifon a Darparu gwybodaeth*

96. Roedd y rhan fwyaf o'r tystion yn fodlon â'r darpariaethau yn adran 8 a 9 o'r Mesur arfaethedig. Mewn cysylltiad â'r darpariaethau hyn, dywedodd HCC:

> "it is reasonable and proportionate, and the precedent has already been set with regard to how we collect the levy and how returns are made. Non-payment of levy may result in legal proceedings"[67].

97. Roedd y tystion yn cefnogi'r hyblygrwydd yn adran 8 o'r Mesur arfaethedig, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i newid yr amseriad a'r wybodaeth sydd ei hangen o fewn datganiadau. Dywedodd HCC:

> "As long as any change is communicated clearly and in a timely manner, it is not a problem.  We have to do it from time to time anyway, so I think that it is reasonable."[68]

98. Roedd yr FUW yn cytuno â'r farn hon, a dywedodd nad oedd yn gweld unrhyw broblemau'n codi o hynny cyn belled ag yr ymgynghorir yn llawn ar y newidiadau a bod digon o amser cyn gweithredu'r newidiadau hynny.[69]

99. Dywedodd y Gymdeithas Arwerthwyr Da Byw:

> "When a farmer-producer sells livestock through the market, we credit the abattoir with the producer's element of the levy. It would be scandalous if the producer were having it deducted from his income when he sells the animal and if it were not then passed on by the slaughterer to HCC or whichever body is

[67] Y Cofnod, paragraff 50, 5 Tachwedd 2009
[68] Y Cofnod, paragraff 52, 5 Tachwedd 2009
[69] Y Cofnod, paragraff 74, 5 Tachwedd 2009

> ultimately collecting it. That defeats the whole object, so it must be rigorously enforced”[70].

*Tystiolaeth gan dystion - Gorfodi*

100. Nid oedd y rhan fwyaf o’r tystion yn rhagweld unrhyw anawsterau o ran gorfodi darpariaethau adrannau 8 a 9. Fodd bynnag, mynegodd yr FUW bryderon y gallai achosion pan fydd cwmnïau yn wynebu trafferthion ariannol neu pan fyddant yn mynd i ddwylo derbynwyr wneud y broses o orfodi yn anodd o ran adennill unrhyw arian a gollwyd.[71]

101. Roedd y Gymdeithas Arwerthwyr Da Byw yn rhannu’r farn hon:

> “much of the red meat industry has problems with financing, and, sadly, in the past the Meat and Livestock Commission and other bodies have always appeared on the list of creditors in the final stages of an abattoir’s trading, as abattoir operators have placed it furthest down the list”[72].

*Tystiolaeth gan y Gweinidog – Adrannau 8 a 9: Datganiadau niferoedd ac amcangyfrifon a Darparu gwybodaeth*

102. Mewn tystiolaeth lafar, esboniodd y Gweinidog resymeg adrannau 8 a 9 o’r Mesur arfaethedig. Dywedodd:

> “Caiff y ddarpariaeth gorfodi ei hamlinellu’n ddiweddarach yn y Mesur arfaethedig i sicrhau bod yr ardoll yn cael ei chasglu’n effeithlon ac yn unol â dyheadau’r ddeddfwriaeth; mae gorfodaeth yn rhan allweddol o hynny.”

103. Wrth holi’r Gweinidog, mynegwyd pryderon o ran yr anghysonderau yn y gwaith o ddrafftio adran 8 (8) ac adran 11 (12) o’r Mesur arfaethedig. Nodwyd bod adran 11 (12) yn creu trosedd o dramgwydd ‘heb esgus rhesymol’, ac mae adran 8 (8) yn creu trosedd o fethu a chyflwyno datganiad ond nid yw’n cynnwys unrhyw ‘heb esgus rhesymol’ cyfatebol.[73]

104. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog wrthym:

---

[70] Y Cofnod, paragraff, 17, 12 Tachwedd 2009
[71] Y Cofnod, paragraff 76, 12 Tachwedd 2009
[72] Y Cofnod, paragraff 77, 12 Tachwedd 2009
[73] Y Cofnod, paragraff 127, 12 Tachwedd 2009

> "bydd angen  inni roi sylw i hyn wrth ystyried a ddylem gyflwyno gwelliannau i'r Mesur arfaethedig yn y cyfnod nesaf"[74].

*Ein barn ni- Adrannau 8 a 9: Datganiadau niferoedd ac amcangyfrifon a Darparu gwybodaeth*

105. Nodir yr anghysonder rhwng gwaith drafftio adran 11 (12) ac adran 8 (8) o'r Mesur arfaethedig, sy'n creu trosedd ddiamod mewn un achos ond nid y llall. Wrth roi tystiolaeth, nodir bod y Gweinidog wedi cadarnhau y caiff yr anghysonder hwn ei gadw mewn cof wrth ystyried gwelliannau i'r Mesur arfaethedig yn ystod y cyfnod nesaf. Rydym yn argymell fod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant i fynd i'r afael â'r anghysonder hwn yn ystod y cyfnod nesaf.

***Adrannau 10 ac 11: Arolygu a Phwerau mynediad***

*Cefndir*

106. Mae adran 10 yn gwneud darpariaeth ar gyfer penodi person ('person penodedig') a fydd yn gyfrifol am benderfynu ar gywirdeb y wybodaeth sy'n ymwneud ag ardoll ac a oes unrhyw un yn euog o droseddu.

107. Mae adran 11 yn nodi amodau cyffredinol a phenodol y mae angen cydymffurfio â hwy cyn y gall arolygwr ('person penodedig') wneud cais am warant i gael mynediad i dir a/neu eiddo at ddibenion gorfodi'r Mesur. Yn ôl adran 11, gallai Ynad Heddwch roi gwarant i'r 'person penodedig' gael mynediad i dir neu eiddo. Dim ond pe bai sail resymol dros gredu bod angen mynediad i'r tir neu'r eiddo er mwyn asesu cywirdeb gwybodaeth fyddai'n bosibl gwneud hyn, neu er mwyn asesu a gyflawnwyd trosedd. Byddai gwarant o dan yr adran hon o'r Mesur yn cynnwys y pŵer i gael mynediad i annedd neu ddaliad preifat; i archwilio anifeiliaid ar y tir neu yn yr eiddo; archwilio dogfennau neu gofnodion; cael gwared ar unrhyw beth y mae'r person penodedig o'r farn resymol sy'n dystiolaeth o unrhyw fethiant i gydymffurfio â gofynion y Mesur.

*Tystiolaeth gan dystion - Adrannau 10 ac 11: Arolygu a Phwerau mynediad*

108. Roedd y tystion yn fodlon â'r darpariaethau a nodir yn adrannau 10 ac 11 o'r Mesur arfethedig. Roedd y tystion yn fodlon â'r

[74] Y Cofnod, paragraff 129, 12 Tachwedd 2009

darpariaethau i Ynad Heddwch gyhoeddi gwarant i gael mynediad i dir neu eiddo ac i chwilio'r tir neu'r eiddo hwnnw. Dywedodd yr FUW wrthym:

> "it is a fairly standard procedure with regard to a range of legislation, whether it is a matter of police raids or other things. Therefore, it is completely proportionate and it also provides some security to the business. It is a fair balance. We have trust in the JPs to make the decision and provide those warrants"[75].

109. Mynegwyd barn debyg gan NFU Cymru, a ddywedodd wrthym fod prosesau gorfodi o'r fath yn arferol"[76]. Ychwanegodd:

> "There is a significant amount of legislation, so we have to put our trust in the JP to do his job as he does with other legislation"[77].

110. Wrth holi HCC[78] a Chymdeithas Gweithredwyr Lladd-dai Prydain, cawsom ein bodloni hefyd gan y darpariaethau a nodir yn adrannau 10 ac 11 o'r Mesur arfaethedig.

*Tystiolaeth gan y Gweinidog, - Adrannau 10 ac 11: Arolygu a Phwerau mynediad*

111. Wrth egluro bwriad adrannau 10 ac 11 o'r Mesur arfethedig, esboniodd swyddogion y Gweinidog y caiff yr ardoll bresennol ei benderfynu pan gaiff yr anifail ei ladd, felly mae'r wybodaeth o ran nifer yr anifeiliaid a gaiff eu lladd ar gael mewn pedwar prif fan casglu gwybodaeth. Pe bai symudiad tuag at sefyllfa lle y câi'r ardoll a benderfynwyd ei gasglu ar y fferm, byddai 32,000 o fannau casglu gwybodaeth a byddai sefyllfa'n datblygu o gadw gwybodaeth ar y fferm.[79]

112. Esboniodd swyddogion y Gweinidog ymhellach nad oedd diffiniadau clir a chyson o fferm, ffermdy na thŷ annedd a nodwyd:

> 'Felly, mae angen pwerau digonol arnoch i allu archwilio'r cofnodion y seilir yr ardoll arnynt, a gallai'r cofnodion hynny fod yn y ffermdy—gallent fod mewn swyddfa fferm neu yn

[75] Y Cofnod, paragraff 131, 5 Tachwedd 2009
[76] Y Cofnod, paragraff 81, 12 Tachwedd 2009
[77] Y Cofnod, paragraff 81, 12 Tachwedd 2009
[78] Y Cofnod, paragraff 29, 12 Tachwedd 2009
[79] Y Cofnod, paragraff 134, 12 Tachwedd 2009

rhywle arall, ond mae'n bur debygol mai yn y ffermdy y byddant, sut bynnag y diffinnir hwnnw. Felly, at ddibenion y Mesur arfaethedig, yr ydym wedi cymryd fframwaith tebyg i'r un a ddefnyddir mewn deddfwriaeth amaethyddol yn gyffredinol, er enghraifft yn y rheoliadau symud gwartheg, ac mae'r darpariaethau yn y Mesur arfaethedig hwn, i raddau helaeth, yn adlewyrchu eraill sy'n cael eu defnyddio mewn mannau eraill."[80]

113. Mae adran 11 (4) o'r Mesur arfaethedig yn nodi'r amodau sy'n caniatáu i berson penodedig gael mynediad i dŷ annedd preifat. Gofynnwyd i'r Gweinidog egluro bwriadau adran 11 (4) (a) o ran y gwahaniaeth rhwng 'tŷ annedd preifat' a 'daliad'.[81]

114. Wrth ymateb, cydnabu swyddog y Gweinidog:

> "Nid yw'r term 'daliad' yn cael ei ddiffinio yn yr adran diffiniadau, adran 14. Byddwn yn trafod gyda'r Gweinidog a oes angen adolygu'r adran diffiniadau o ystyried hynny."[82]

*Ein barn ni – Adrannau 10 ac 11: Arolygu a Phwerau mynediad*

115. Nodir bod nifer o dystion yn fodlon ag adrannau 10 ac 11 o'r Mesur arfaethedig fel y mae wedi'i ddrafftio ac maent wedi mynegi'r farn nad yw'r darpariaethau yn yr adrannau hyn yn gwahaniaethu llawer rhag y trefniadau presennol. Gan gadw'r farn hon mewn cof, rydym yn cytuno ag adrannau 10 ac 11 o'r Mesur arfaethedig, yn amodol ar ein hargymhelliad blaenorol bod angen cysondeb rhwng adrannau 11(12) ac 8(8).

[80] Y Cofnod, paragraff 134, 12 Tachwedd 2009
[81] Y Cofnod, paragraff 149, 12 Tachwedd 2009
[82] Y Cofnod, paragraff 151, 12 Tachwedd 2009

## 5. Goblygiadau ariannol

*Tystiolaeth gan dystion*

116. Yn ystod yr ymgynghoriad ysgrifenedig, gofynnwyd i sefydliadau a oedd y Mesur arfaethedig yn creu unrhyw oblygiadau ariannol i sefydliadau.

117. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Hybu Cig Cymru

> "there are no immediate financial implications…the proposed Measure could be used to safeguard the Welsh red meat industry should attempts to agree an equitable distribution mechanism fail[83]".

118. Roedd NFU Cymru yn cytuno â'r farn hon, ac mewn tystiolaeth ysgrifenedig, ychwanegodd fod y Mesur yn caniatáu ar gyfer penderfyniadau ar y modd y caiff diwydiant cig coch Cymru ei ariannu yn y dyfodol.[84]

119. Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, eglurodd Hybu Cig Cymru hyn drwy ddweud:

> "Ar hyn o bryd, yr ydym ryw £1 filiwn ar ein colled oherwydd anifeiliaid, megis eidion, a ledir yn Lloegr, ac mae hynny'n lawer o arian. Pe bai hyd at dri lladd-dy yn cau, gallai'r golled honno fod llawer yn waeth dros nos. Rhaid i ni felly sicrhau bod gennym y pwerau a'r adnoddau i wneud rhywbeth yn fuan i amddiffyn buddiannau ffermwyr Cymru. Yn gryno, ein rôl yw helpu'r gadwyn ddatblygu a bod yn fwy effeithlon-hynny yw, y ffermydd a'r lladd-dai. Rhan helaeth o'n gwaith yw hybu'r cynnyrch sy'n dod o ddiwydiant Cymru, sef y brandiau cig oen a chig eidion Cymru. Gallem fod mewn sefyllfa lle nad oes adnoddau ariannol o'r ardoll i wneud hynny, a bod yr arian yn diweddu yn Lloegr neu'r Alban a'u bod hwy yn defnyddio'r arian hwnnw i gystadlu yn erbyn ffermwyr Cymru. Dyna pam yr ydym yn sôn am ddiogelu buddiannau ffermwyr Cymru yn ein tystiolaeth."[85]

[83] Tystiolaeth ysgrifenedig – RM1
[84] Tystiolaeth ysgrifenedig – RM3
[85] Y Cofnod, paragraff 66, 5 Tachwedd 2009

*Ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid*

120. Yn unol â Rheol Sefydlog 14.2, ystyriodd y Pwyllgor Cyllid y Mesur arfaethedig ynghyd â thystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol gan y Gweinidog.

121. Ysgrifennodd y Pwyllgor Cyllid atom ar 23 Tachwedd 2009 yn nodi'r canlynol

> "… cyfrwng galluogi yw'r Mesur arfaethedig yn ei hanfod … mae'n ymddangos nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r Mesur ei hun."

122. Aeth ymlaen i ddweud nad oedd gan y Pwyllgor unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y Mesur arfaethedig ond argymhellodd "bod pob is-ddeddfwriaeth yn cael asesiad effaith rheoleiddiol llawn".

*Ein barn ni*

123. Nodir y llythyr gan y Pwyllgor Cyllid ac rydym wedi ei ystyried wrth wneud ein hargymhellion.

## 6. Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

*Cefndir*

124. Ystyriodd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth y Mesur arfaethedig, yn unol â Rheol Sefydlog 15.6 ar 4 ac 11 Tachwedd 2009 a chlywodd dystiolaeth lafar gan y Gweinidog. Gosododd y Pwyllgor ei adroddiad gerbron y Cynulliad ar 1 Rhagfyr 2009.

*Ein barn ni*

125. Nodir casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.

## Tystion

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiad llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/bus-legislation-measures-proposed_redmeat.htm>

*5 Tachwedd 2009*

| | |
|---|---|
| Gwyn Howells | Hybu Cig Cymru |
| Dr Nick Fenwick<br>Euron Prysor Jones | Undeb Amaethwyr Cymru |

*12 Tachwedd 2009*

| | |
|---|---|
| Dylan Morgan<br>Ed Rees | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr - Cymru |
| Stephen Williams | Cymdeithas Arwerthwyr Da Byw |
| Elin Jones AC | Y Gweinidog dros Faterion Gwledig |

*19 Tachwedd 2009*

| | |
|---|---|
| William Lloyd Williams | Cymdeithas Gweithredwyr Lladd-dai Prydain |

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/bus-legislation-measures-proposed_redmeat.htm>

| *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Hybu Cig Cymru | RM 1 |
| Undeb Amaethwyr Cymru | RM 2 |
| NFU Cymru | RM 3 |
| Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru | RM 4 |
| Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth | RM 5 |
| Y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol - Cymru | RM 6 |